**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 22 Mawrth 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | L R Jones | S Joy |
| Y V Jardine | S Pritchard | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeff Fish | Rheolwr Tim Cefnogi Ysgolian a Rhanddeilaid |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R V Smith - Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): F M Gordon a/ac B Hopkins

---

## 39 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 40 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.

## 41 Adolygiad Llywodraethu Ysgolion - Gwanwyn 2023.

Cyflwynodd Jeff Fish adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau'r pwyllgor ynghylch llunio cynllun gweithredu sy'n bwriadu rhoi'r gefnogaeth orau i lywodraethu ysgolion yn y dyfodol a gwireddu blaenoriaethau'r cyngor i sicrhau bod arweinyddiaeth yn cefnogi cynnydd dysgwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod blaenorol a oedd wedi adolygu a chyfeirio at yr adroddiad craffu blaenorol ynghylch y pwnc.

Roedd y sylwadau a'r trafodaethau yn y cyfarfod diwethaf yn sail ar gyfer y cynllun gweithredu drafft a oedd yn ynghlwm wrth yr adroddiad. Esboniodd y swyddog y byddai polisi'n cael ei ddatblygu ar gyfer recriwtio a chadw llywodraethwyr yn effeithiol a bod y camau gweithredu yn y cynllun drafft wedi'u dylunio i gefnogi'r bwriad polisi hwnnw.

Roedd y prif feysydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu drafft yn cynnwys:

- Recriwtio a chadw llywodraethwyr;
- Ffyrdd newydd a gwell o rannu arfer gorau;
- Problemau ynghylch gwasanaeth e-bost Hwb;
- Datblygu cronfa 'rhagoriaeth' o lywodraethwyr profiadol i gefnogi llywodraethwyr newydd a phresennol;
- Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhwydweithio rhwng llywodraethwyr;
- Mwy o gyfathrebiadau wedi'u targedu ac wedi'u personoli ar gyfer llywodraethwyr;
- Datblygu cronfa ddata cefnogi llywodraethwyr newydd;
- Gwella Arweinwyr;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a grwpiau partner;

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad a oedd wedi adeiladu ar yr un a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf ac a oedd wedi cynnwys meysydd a nodwyd yn ystod y sylwadau a'r adborth a roddwyd gan aelodau'r pwyllgor yn ystod y sesiwn.

Nododd fod yr adroddiad wedi datblygu a chynnwys y meysydd hynny a nodwyd ac a drafodwyd o fewn cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau niferus a gwnaethant sylwadau ynghylch yr wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad, cyflwyniad y swyddog a'r cynllun gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Cymorth/help/cefnogaeth ar gyfer llywodraethwyr newydd pan fyddant yn dod yn llywodraethwyr;
- Yr angen i sicrhau bod llywodraethwyr newydd yn teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn rhan o 'deulu' o lywodraethwyr;
- Cyflwyno system 'cyfeillio' o bosib;
- Problemau ynghylch yr angen am negeseuon e-byst Hwb ar gyfer cynghorwyr a'r angen i hwyluso'r broses o dderbyn gwybodaeth yn electronig,
- Mae cyfarfodydd ar-lein yn gweithio'n dda ond mae angen ehangu cyfarfodydd a hyfforddiant wyneb yn wyneb; byddai hyn yn helpu gydag integreiddio llywodraethwyr newydd yn well wrth symud ymlaen;
- Yr angen am gefnogaeth ychwanegol ar gyfer Cadeiryddion llywodraethwyr;
- Y posibilrwydd o ddatblygu canllaw fideo byr ar gyfer llywodraethwyr newydd;

Ymatebodd y swyddog, y Cyfarwyddwr ac Aelod y Cabinet yn briodol i'r problemau a'r pwyntiau a godwyd uchod.

**42 Cynllun Gwaith.**

Nododd y Cadeirydd mai'r cyfarfod nesaf oedd y cyfarfod olaf ar gyfer y flwyddyn ddinesig hon.

Amlinellodd gynnig i ymgysylltu â swyddogion o'r Adran ac adolygu'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a llunio adroddiad sy'n cyfuno'r holl wybodaeth, y dystiolaeth a’r adroddiadau a dderbyniwyd a'r gwaith a wnaed ar y tri phrif faes, sef Cryfhau Arweinwyr Ysgolion, Presenoldeb a Chynhwysiad a Llywodraethu Ysgol Cryfach a Mwy Effeithiol mewn un adroddiad.

Gall y pwyllgor drafod yr adroddiad yn ystod y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.33 pm

**Cadeirydd**